CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 24 Mai 2022

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Dafydd Roberts (Is-gadeirydd yn y Gadair)

Y Cynghorwyr Geraint ap Ifan Bebb, Non Dafydd, Paul Ellis, Jeff Evans, Neville Evans, Douglas M Fowlie, T Ll Hughes MBE, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, Dyfed W Jones, G O Jones, John Ifan Jones, R Ll Jones, Jackie Lewis, Euryn Morris, Alun W Mummery, Pip O'Neill, Derek Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Keith Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Dafydd Rhys Thomas, Alwen P Watkin, Ieuan Williams, Robin Williams a Liz Wood

WRTH LAW: Prif Weithredwr,
Dirprwy Brif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Dros Dro,
Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid
Pennaeth Gwasanaethau Tai,
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,
Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,
Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),
Rheolwr Sgriwtini (AD),
Swyddog Cyfathrebu (GJ),
Swyddog Pwyllgor (MEH).

HEFYD YN BRESENNOL: -

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Llio Angharad Owen ac Arfon Wyn

1. COFNODION

Cadarnhawyd fod cofnodion cyfarfodydd y Cyngor Sir a gynhaliwyd fel a ganlyn yn gywir:-

- 10 Mawrth, 2022
- 29 Mawrth, 2022 (Cyfarfod Arbennig)
- 25 Ebrill, 2022 (Cyfarfod Arbennig)

2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD NEU'R PRIF WEITHREDWR

Croesawodd yr Is-gadeirydd yn y Gadair yr Aelodau a oedd wedi cael eu hethol am y tro cyntaf i'w cyfarfod cyntaf o'r Cyngor Sir.

Roedd yn dymuno diolch i'r Gwasanaeth Etholiadol a'r staff a fu'n trefnu'r Etholiadau Llywodraeth Leol a gynhaliwyd yn ddiweddar.

Ychwanegodd fod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn rhithwir a'r gobaith yw y bydd y system hybrid ar waith yn y dyfodol agos, ar ôl cwblhau hyfforddiant a phrofion ar y system yn swyddfeydd y Cyngor.

Yn dilyn hynny, gwnaeth yr Is-gadeirydd yn y Gadair y cyhoeddiadau a ganlyn:-

- Llongyfarchwyd Mr Rhys Howard Hughes sydd wedi'i benodi i'r swydd Dirprwy Brif Weithredwr.

- Cynhaliwyd Eisteddfod Môn (Bro Esceifiog) yn ddiweddar wedi iddi gael ei chanslo am ddwy flynedd oherwydd y pandemig. Llongyfarchwyd pawb a gymerodd ran yn yr Eisteddfod.

- Dymunwyd yn dda i bobl ifanc o'r Ynys fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn Sir Ddinbych yr wythnos nesaf.

- Dymunwyd yn dda i'r holl bobl ifanc fydd yn sefyll arholiadau yn ystod yr wythnosau nesaf.

- Llongyfarchiadau i Fand Pres Biwmares a oedd yn llwyddiannus ym Mhencampwriaethau Rhanbarthol Bandiau Pres Cymru a gynhaliwyd yn Abertawe yn ddiweddar. Byddant yn cynrychioli Cymru yn awr yn rownd derfynol Pencampwriaethau Bandiau Pres Cenedlaethol Prydain Fawr ym mis Medi.

- Llongyfarchiadau i Mr Wayne Hennessey, cyn ddisgybl yn Ysgol Gynradd Biwmares ac Ysgol David Hughes, a oedd yn gapten ar dîm Cymru yn ddiweddar wrth iddo ennill ei 100fed gap dros dîm pêl-droed cenedlaethol Cymru yn y gêm yn erbyn y Weriniaeth Siec yng Nghaerdydd.

- Llongyfarchiadau i holl Aelodau Clybiau Ffermwyr Ifanc Ynys Môn a fu'n cystadlu yng Nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Ffermwyr Ifanc Cymru yn Llanelwedd yn ddiweddar. Roedd tîm dan 14 Ynys Môn yn fuddugol yn y gystadleuaeth – aelodau'r tîm oedd Twm Môn Huws, Clwb Bodedern, Enlli Pennant a Glwys Morris Williams, Clwb Penmynydd.

- Llongyfarchiadau hefyd i Elliw Haf Griffith, Clwb Dwyran, a ddaeth yn drydydd yn y gystadleuaeth Aelod y Flwyddyn.

- Llongyfarchiadau i Gôr Ieuenctid Môn a gyrhaeddodd rownd derfynol Côr Cymru.

- Llongyfarchiadau i Casi Evans o Benysarn, a disgybl yn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch, a ddewiswyd yn aelod o Garfan Pêl-droed Dan 16 Cymru a chwaraeodd yn erbyn Denmarc, y Ffindir a'r Swistir dros y Pasg.

- Llongyfarchiadau hefyd i'w brodyr hŷn, Caio a Cian Evans, sydd wedi cynrychioli timau pêl-droed Ysgolion Cymru a Cholegau Cymru (yn y drefn honno) yn ddiweddar, yn

ogystal ag aelod arall o'r tîm, sef Josh Stanley Williams o Langefni. Dyma'r tro cyntaf i Dimau Cymru ennill y gystadleuaeth mewn dros 40 mlynedd.

- Roedd yr Is-gadeirydd yn y Gadair yn dymuno diolch yn ddiffuant i'r holl drefnwyr a gwirfoddolwyr a fu'n gyfrifol am drefnu Gig Cymru Wcráin a gynhaliwyd ar y Cae Sioe ym Mona ar 9 Ebrill. Roedd y noddwyr yn cynnwys Cyngor Môn a Chyngor Gwynedd a nifer o fusnesau lleol. Bydd yr holl elw'n mynd tuag at gefnogi ffoaduriaid o Wcráin ac, ar y nodyn hwnnw, hoffwn gyfeirio at drigolion gofalgar Ynys Môn sydd wedi croesawu teuluoedd o Wcráin i'w cartrefi.

- Dymunwyd yn dda i aelodau staff sydd wedi ymddeol o'r Cyngor yn ddiweddar.

* * * *

Cydymdeimlwyd ag unrhyw Aelod neu aelod o staff y Cyngor a oedd wedi cael profedigaeth.

Safodd Aelodau a Swyddogion fel arwydd o barch.

4. CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.12.4 Y CYFANSODDIAD

Dim

5. CYFLWYNO DEISEBAU

Ni dderbyniwyd yr un ddeiseb.

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 2021/22

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer 2021/22 gan y Cynghorydd Robert Ll Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2021/22.

7. ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A SGRIWTINI 2021/22

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini 2021/22 gan Gadeiryddion y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

Cyflwynodd y Cynghorydd G O Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, a'r Cynghorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, drosolwg o'r gwaith a gyflawnwyd gan y ddau bwyllgor sgriwtini rhwng Mai 2021 a Mai 2022. Roedd Cadeiryddion y ddau bwyllgor sgriwtini yn arwain ar ddatblygu'r blaen raglenni gwaith yn ystod y cyfnod hwn.

PENDERFYNWYD :-

- **cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini ar gyfer 2021/22;**
- **nodi'r cynnydd parhaus a wnaethpwyd o ran y siwrnai ddatblygu Sgriwtini leol a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar ymarfer.**

Daeth y cyfarfod i ben am 10.55am

Y CYNGHORYDD DAFYDD ROBERTS
IS-GADEIRYDD YN Y GADAIR